

# Cydnabyddiaethau Cynhyrchu

## Canllawiau Cydnabyddiaethau i Gloi

### A Lleoliad y Gydnabyddiaeth

- 01 Dylid lleoli'r cydnabyddiaethau i'r chwith o'r sgrîn o fewn yr ardal destun ddiogel 16:9.
- 02 Rhaid i'r cydnabyddiaethau beidio â chroesi canol y sgrîn.
- 03 Rhaid i'r cefndir – pytiau o'r rhaglen, graffeg neu ddu lenwi'r sgrîn.
- 04 Nid oes rhaid i'r cydnabyddiaethau droelli i fyny ond ni chaniateir iddynt ymlusgo ar draws y sgrîn.
- 05 Gall y cydnabyddiaethau fod mewn unrhyw ffont. Dylai'r credydau fod yn ddarllenadwy ac ni ddylid defnyddio maint ffont llai na 24 llinell (MU).
- 06 Ni ddylid cynnwys unrhyw hyrwyddiadau i'r cwmni cynhyrchu, sain y rhaglen neu gliptiau o'r rhaglen a allai amharu ar banel S4C.
- 07 Dylai pob troslais a deialog fod wedi dod i ben cyn dechrau'r cydnabyddiaethau.
- 08 Caiff unrhyw sain gefndirol ei gostwng yn fyw wrth ddarlledu.
- 09 Ni ellir defnyddio'r cydnabyddiaethau i gloi i hyrwyddo penodau dilynol. Bydd S4C yn cydlynu hyrwyddiadau yn ganolog.
- 10 Dim ond rhaglenni a gomisiynwyd i'w darlledu yn ystod slot Cyw a Stwnsh all ddewis peidio â chynnig cydnabyddiaethau llawn ar gyfer y rhaglenni ond yn hytrach arddangos cydnabyddiaeth y cynhyrchiad a'r rhybudd hawlfraint yn unig.

### B Darlledu

- 01 Bydd S4C yn gorchuddio ochr dde'r sgrîn gyda phanel gwybodaeth ar ffurf siâp 12°, sy'n gyson gyda mynegiant brand y sianel. Mae'n bwysig felly i gadw mewn cof y gall yr ardal hon gael ei defnyddio ar gyfer capsionau, lluniau neu gynnwys fideo.



# Cydnabyddiaethau Cynhyrchu a Hawlfraint

## Canllawiau Hawlfraint Cloi

### Nodyn Hawlfraint

- Hyd y gydnabyddiaeth gynhyrchu a hawlfraint derfynol yw 3 eiliad. Rhaid i unrhyw sain hefyd ddiflannu'n llwyr erbyn diwedd y 3 eiliad.
- Dylid gosod logo'r cwmni o fewn ardal y blwch gwyn.

Gall logo'r cwmni lenwi ardal y blwch yn gyfangwbl neu mae modd ei leihau o fewn yr ardal gwyn.


Dylid defnyddio ffont Gotham Narrow ar gyfer enw'r cwmni a'r flwyddyn hawlfraint. Dylid defnyddio rhifau Rhufeinig ar gyfer nodi'r flwyddyn hawlfraint.

- Ni ellir defnyddio logo wedi ei animeiddio nac un sy'n cynnwys 'sting' clywedol.
- Dylid geirio'r gydnabyddiaeth gynhyrchu a hawlfraint yn unol ag Amodau Masnach S4C neu fel a nodir yn y cytundeb comisiynu.


Mi fydd eich Rheolwr Uned yn S4C yn rhoi'r wybodaeth yma i chi. Bellach ni ddefnyddir y geiriad "ar gyfer".

- Mae S4C yn hapus i ddarparu gydnabyddiaeth gynhyrchu gorffenedig. Cysylltwch â: [graphicsvideo@s4c.co.uk](mailto:graphicsvideo@s4c.co.uk)


### Cydnabyddiaeth Cwmni Unigol



### Cydnabyddiaeth Gynhyrchu Ddwbl



### Cydnabyddiaeth Gynhyrchu Driphlyg



16:9 Ardal Ddiogel Ysgrifen